RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

Mr C.B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424081 C Hendy

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu**, yn cael ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Iau, 16 Chwefror 2017** am **5.00pm.**

ER GWYBODAETH AC FEL RHEOL GYFFREDINOL, BYDD GOFYN I UNRHYW AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO SIARAD AR UNRHYW EITEM YN YR AGENDA YMA, Y MAE GYDA NHW FUDDIANT YNDDI, GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I'R UWCHADRAN MATERION RHEOLI DATBLYGU, TŶ SARDIS, PONTYPRIDD O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD.

ER GWYBODAETH I'R RHEINI A FYDD YN Y CYFARFOD, MAE'N BOSIBL Y CAIFF MATERION EU TRAFOD MEWN TREFN WAHANOL I'R HYN SYDD WEDI'I NODI YN YR AGENDA. CAIFF HYN EI WNEUD FEL BOD MODD I UNIGOLION SYDD AM GYFRANNU YN Y CYFARFOD WNEUD HYNNY. CAIFF TREFN YR AGENDA EI HADDASU ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR ORAU.

A G E N D A

1. DATGAN BUDDIANT .

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.
Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef, a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a

2. Lle bo aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill ac wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn ffordd nad yw'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol a ymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Tudalennau

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2017 yn rhai cywir. **1–4**

5. CYFARFOD AR SAFLE

Cais 16/1194 – Newid defnydd y cyrtiau sboncen presennol i feithrinfa gofal oriau dydd i blant (Dechrau'n Deg). Bydd yn cynnwys man chwaraeon allanol caeedig newydd yn ochr ddeheuol y ganolfan ac addasiadau allanol i'r adeilad (Canolfan Hamdden Llanilltud Faerdref, Parc Canolog, Pentre'r Eglwys, Pontypridd). **5–20**

6. ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH – MATERION CYNLLUNIO

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO

1. Cais 16/0711 – Dau dŷ ar wahân oddi ar lôn breifat, ynghŷd â gwella Parish Road (ailgyflwyno Cais 15/1336/13). Derbyn Asesiad Risg Pyllau Glo ar 09/01/2017. Derbyn cynllun diwygiedig y safle a chynllun diwygiedig mynediad i'r safle ar 30/11/2016. Tir y tu ôl i Oakland's Bungalow, Werfa Lane, Aber-nant, Aberdâr. **21–34**

2. Cais 16/0771 – Datblygiad preswyl arfaethedig sy'n cynnwys siop, mannau parcio a mynediad (wedi derbyn cynlluniau ac adroddiadau diwygiedig). Derbyn cynlluniau diwygiedig (cynlluniau'r safle, fflatiau heb lifft, adrannau'r safle, llythyr ynglŷn â mynediad i gerddwyr a datganiad trin terfynau) ar 26/01/2017. Hen feithrinfa Hirwaun, Aberdâr **34–50**

3. Cais 16/0808 – Ceisio caniatâd llawn er mwyn adeiladu 18 annedd ar y safle, ynghyd ag isadeiledd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad (derbyn cynlluniau **50–59**

diwygiedig ar 10/10/16). Tir y tu ôl i Swyddfa Bost y Rhigos, Heol Pendarren, y Rhigos

4. Cais 16/1125 – Adeiladu annedd dau lawr ar wahân (parthed cyflwyno Cais 16/0074/13), tir y tu ôl i Tirfounder Road, Cwm-bach, Aberdâr **59–64**

5. Cais 16/1240 – Dau annedd. Tir y tu ôl i feithrinfa Ginger Bread House, Maes Hyfryd, Cwm-bach, Aberdâr **64–76**

7 CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD

1. Cais 16/1351 – Garej yn y blaen ac estyniad dau lawr yn y cefn - 18 Howard Street, Clydach, Tonypandy **77–84**

8 ADRODDIADAU ER GWYBODAETH

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a dderbyniwyd, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddiprwyo ar gyfer cyfnod 23/01/2017 tan 03/02/2017. **85–94**

9. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion a ddylai gael eu hystyried yn y cyfarfod ar frys oherwydd amgylchiadau arbennig yn nhyb y Cadeirydd.

Cylchrediad:

Aelodau o'r Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:

Cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:
(Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Stacey a M. Griffiths yn eu tro)

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams, J. Bonetto, (Mrs) L. De Vet, P. Jarman, (Mrs) S. J. Jones, R. Lewis, C. J. Middle, S. Powderhill, S. Rees, (Mrs) A. Roberts, G. Smith, G. Thomas, (Mrs) J. S. Ward, P. Wasley, M. J. Watts ac E. Webster.

9 Chwefror 2017